Archwilio Cymru
Audit Wales

# A yw Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol y Cyngor yn Effeithiol? – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3461A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio, mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio, ac er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym.

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio ac mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio 6

Er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym 8

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaeth yr adolygiad archwilio trefniadau Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar gyfer ei swyddogaethau cymorth corfforaethol mewn pedwar maes allweddol: Adnoddau Dynol; Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol; Gwasanaethau Digidol; ac Archwilio Mewnol.

2 Fe wnaethom fwrw golwg ar weledigaeth a chyfeiriad strategol y swyddogaethau cymorth corfforaethol hyn i ystyried a ydynt yn cefnogi amcanion y Cyngor yn effeithiol ac yn ddigonol.

3 Fe wnaeth yr adolygiad ystyried hefyd a yw swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

### Yr hyn y gwnaethom chwilio amdano

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn effeithiol?

5 I ateb y cwestiwn yma, fe wnaethom ystyried:

- a oedd trefniadau presennol ar gyfer swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr am anghenion, heriau a chyfleoedd gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol gan gynnwys ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
- a yw'r Cyngor wedi ystyried a chynllunio mewn modd priodol sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer ei swyddogaethau cymorth corfforaethol dros y tymor byr, canolig a hir; ac
- a oes gan y Cyngor drefniadau priodol i fonitro ac adolygu amcanion tymor byr, canolig a hwy ei swyddogaethau cymorth corfforaethol.

### Yr hyn a ganfuom

6 Canfuom fel a ganlyn: mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio, mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio, ac er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym. Daethom i'r casgliad yma am y rhesymau canlynol:

- mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio ac mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio; ac

- er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r polisïau Adnoddau Dynol sydd wedi dyddio gael eu hadolygu.<br>• Canfuom fod rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio a bod angen eu hadolygu. Gall hyn achosi risg i'r Cyngor, pe bai her gyfreithiol yn codi mewn perthynas ag Adnoddau Dynol, os nad yw polisïau'n gyfoes a bod dyddiadau adolygu wedi llithro. |
| A2 | Dylai adolygiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol fynd ati'n gyson i ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu gwasanaethau. Mae angen i gydymffurfiaeth meysydd gwasanaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy gael ei gwirio'n systematig gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ei adolygiadau ar gyfer pob archwiliad nad yw'n drafodiad. Trwy sicrhau bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yn fwy rheolaidd sut y mae gwasanaethau'n mynd i'r afael â'r maes yma, bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei wreiddio'n ddyfnach yn y Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio ac mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio

7 Wrth ddod i'r casgliad yma canfuom fel a ganlyn:

- roedd gan yr holl staff mewn gwasanaethau cymorth corfforaethol y siaradom ni gyda hwy ddealltwriaeth dda am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae staff y gwasanaethau cymorth corfforaethol yn defnyddio proses y Cyngor ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Lesiant wrth ystyried newid neu gyflwyno polisïau a phrosiectau.
- canfuom fod rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio a bod angen eu hadolygu. Gall hyn achosi risg i'r Cyngor, pe bai her gyfreithiol yn codi mewn perthynas ag Adnoddau Dynol, os nad yw polisïau'n gyfoes a bod dyddiadau adolygu wedi llithro. Polisi'r Cyngor yw y bydd polisïau AD yn cael eu hadolygu am dair blynedd, ond os bydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth yn digwydd yn ystod yr amser hwnnw, yna dylid diweddaru'r polisi ar unwaith. Mae'r polisïau'n cael eu 'hadolygu'n anffurfiol' yn ystod y tair blynedd hynny a bydd unrhyw faterion gyda geiriad neu ddehongliad o'r polisi yn cael sylw a gellir gwneud mân newidiadau ac fe gaiff eu gwneud. Nid oedd y polisïau Adnoddau Dynol a archwiliwyd gennym yn 2022 yn cofnodi i'r 'adolygiadau anffurfiol' hyn ddigwydd, ac nid oeddent o fewn y cylch tair blynedd ychwaith. Roedd y polisïau, felly, yn hen, ac mae'r risg o her gyfreithiol i bolisïau Adnoddau Dynol yn parhau.
- roedd y polisïau Adnoddau Dynol a archwiliwyd gennym ni'n ymdrin â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- roedd swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n disgwyl y byddai'r galw am adolygiadau Archwilio Mewnol yn cynyddu yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i'r Cyngor gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ac wrth i'r gwasanaeth aildrefnu adolygiadau a ohiriwyd yn ystod y pandemig. Mae recriwtio i swyddi Archwilio Mewnol yn dal i fod yn her er bod y mater yn gyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus Gogledd Cymru.
- yn dilyn y pandemig, mae rhai o wasanaethau'r Cyngor yn dal i geisio rhoi argymhellion hirsefydlog ar waith o adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol ac mae rhai camau gweithredu sydd heb gael eu rhoi ar waith yn fwy na theirblwydd oed gyda hynny yn ei dro'n sbarduno gwaith dilynol pellach gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r Uwch Dîm Arwain, y Cabinet a'r Prif

Weithredwr yn cael gwybod am risgiau a godwyd i lefel baner goch gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, ond nid ydynt yn cael nac yn adolygu argymhellion gofynnol yn systematig, oni bai eu bod yn cael eu codi i lefel baner goch. Hefyd, efallai na fydd storïau da ac arfer gorau'n cyrraedd y lefel arweinyddiaeth a llywodraethu hon, gyda chyfleoedd yn cael eu colli o ganlyniad.

- canfuom, er y gallai'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ddangos dealltwriaeth dda am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy, nad yw'r adroddiadau Archwilio Mewnol a archwiliwyd gennym ni wastad yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn eu proses i archwilio gwasanaethau. Nid yw cydymffurfiaeth meysydd gwasanaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei gwirio'n systematig gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mhob un o'i adolygiadau nad ydynt yn drafodiad.
- y Gwasanaethau Cymunedol a Chwsmeriaid sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o ymholiadau oddi wrth y cyhoedd a gyflwynir i'r Cyngor a lle na allant ddatrys yr ymholiad maent yn eu cyfeirio at y gwasanaeth priodol. Yn ystod y pandemig, roedd galw mawr am y gwasanaeth ac mae'r pwysau hynny wedi parhau yn ystod 2022. Nid yw'r Cyngor wedi adolygu eto pa un a fydd lefel yr ymholiadau'n gostwng yn 2023 ac, os na fyddant, sut y bydd yn gwneud y gwasanaeth yn gydnerth yn wyneb y pwysau newydd hyn.
- roedd galw mawr am y Gwasanaethau Digidol hefyd ac mae'r pwysau hyn wedi parhau yn ystod 2022. Roedd swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n uchel eu canmoliaeth i'r gwaith gan y Gwasanaethau Digidol yn ystod ac ar ôl y pandemig. Roedd gan rai swyddogion y siaradom ni gyda hwy ddealltwriaeth glir am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond roeddent yn teimlo nad oedd y cysylltiadau rhwng gwaith y Gwasanaethau Digidol a chyfeiriad strategol corfforaethol y Cyngor wastad yn cael eu dangos yn glir, ac roedd rhai swyddogion yn teimlo y gallai eu gwasanaeth digidol gael ei gryfhau pe bai'r cysylltiadau â'r Cynllun Corfforaethol newydd yn fwy eglur, megis ymagwedd y Cyngor at gamau gweithredu a fydd yn rhoi hwb i wreiddio diwylliant digidol gyda staff a dinasyddion. Er bod y Camau Gweithredu yn Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn ategu themâu corfforaethol y Cyngor, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r dirwedd ddigidol gyfredol yn llawn. Er enghraifft, nid yw'r trefniadau cyfredol yn rhoi adlewyrchiad llawn o'r gweithgarwch digidol cydweithredol sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## Er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried anghenion y swyddogaethau cymorth corfforaethol am adnoddau yn y dyfodol

8 Wrth ddod i'r casgliad yma canfuom fel a ganlyn:

- mae gan bob gwasanaeth corfforaethol a archwiliwyd gennym gynllun gwasanaeth sydd o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau yn hen gynllun corfforaethol y Cyngor. Roedd y cynlluniau gwasanaeth a archwiliwyd gennym ni'n gynhwysfawr ac yn eglur ac yn nodi trosolwg o'r gwasanaeth a'r deilliannau y mae'r gwasanaeth yn amcanu at eu cyflawni. Mae'r cynlluniau'n cynnwys y dangosyddion perfformiad, mesurau a gweithgareddau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu cynnydd o ran cyflawni'r amcanion. Rhoddir sgôr coch, ambr neu wyrdd (CAG) i bob deilliant, sy'n dynodi lefel y gwelliant y mae ei angen, ac fe gaiff y rhain eu diweddaru pan adroddir ar y cynlluniau gwasanaeth ym mhob chwarter. Caiff adroddiadau ar gynlluniau gwasanaeth eu hystyried fel rhan o broses herio gwasanaethau'r Cyngor, er nad yw hon wedi cael ei chynnal yn y ffordd arferol yn ystod y pandemig ond bydd yn ailddechrau yn 2023 ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol newydd.
- mae perfformiad yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth yn cael ei adolygu'n chwarterol gan yr Uwch Dîm Arwain, gan y Cabinet a chan y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad. Mae'r adroddiadau ar gael yn gyhoeddus fel rhan o bapurau agenda'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae'r adroddiadau'n darparu diweddariad naratif ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ac yn adrodd ar berfformiad mewn perthynas â mesurau penodol. Fe welsom ni graffu cadarn ar adroddiadau'r gwasanaethau corfforaethol gan Aelodau mewn cyfarfodydd craffu a chan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- nid yw cynlluniau ar gyfer y dyfodol sy'n adlewyrchu'r Cynllun Corfforaethol newydd yn eu lle eto ar gyfer gwasanaethau cymorth corfforaethol y Cyngor, sy'n dal i adfer o COVID i ryw raddau a hwythau angen ychydig o seibiant. Mae anghenion adnoddau beunyddiol yr holl wasanaethau, gan gynnwys swyddogaethau cymorth corfforaethol, yn cael eu harchwilio a'u hystyried fel rhan o'r prosesau ar gyfer pennu'r gyllideb flynyddol. Yn benodol, yn y blynyddoedd diwethaf mae adolygiad blynyddol o bwysau nad ydynt yn strategol wedi galluogi'r holl wasanaethau i gyflwyno ceisiadau am adnoddau ychwanegol. Fe wnaeth penodi Prif Weithredwr newydd yn ystod y pandemig arwain at broses i adolygu ac ailstrwythuro uwch dîm arwain a Phenaethiaid Gwasanaeth y Cyngor na fydd yn cael ei chwblhau tan haf 2023. Fodd bynnag, dylai fod ffocws strategol yn awr ar swyddogaeth a

chynllunio gydag ystyriaeth i gyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy gan y Cyngor.

- byddai asesiad strategol o anghenion gwasanaethau cymorth corfforaethol y Cyngor am adnoddau, ar ôl y pandemig, yn goleuo dealltwriaeth y Cyngor am y gofynion o ran darparu adnoddau a gofynion sy'n dod i'r amlwg o ran hyfforddi a datblygu'r gweithlu ac yn cryfhau trefniadau i fynd i'r afael â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Archwilio Cymru
Audit Wales